CYHOEDDIAD

# Cylchlythyr demograffeg Ystadegau Cymru: Awst 2022

Cylchlythyr Awst 2022 ar gyfer defnyddwyr ystadegau Cymru ar yr ystadegau diweddaraf am boblogaeth, mudo, cartrefi a'r Gymraeg.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 6 Medi 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 6 Medi 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-awst-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyfrifiad 2021**

**Y prif bwyntiau**

**Cynlluniau’r SYG ar gyfer rhyddhau data Cyfrifiad 2021**

**Gwybodaeth ddiweddaraf y SYG am ystadegau poblogaeth**

**Ystadegau’r Gymraeg**

**Cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-awst-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyfrifiad 2021

## Amcangyfrifon o’r boblogaeth a chartrefi Cymru: Cyfrifiad 2021

Ar 28 Mehefin, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) **ganlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** a Lloegr. Mae’r canlyniadau cyntaf hyn yn cynnwys amcangyfrifon o’r boblogaeth a chartrefi wedi’u talgrynnu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ôl rhyw a grwpiau oedran pum mlynedd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi **bwletin ystadegol sy’n crynhoi’r prif ganlyniadau ar gyfer Cymru**. Mae’r data hefyd ar gael ar **StatsCymru**.

# Y prif bwyntiau

## Newid yn y boblogaeth

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol yng Nghymru oedd 3,107,500. Dyma’r boblogaeth fwyaf a gofnodwyd erioed drwy gyfrifiad yng Nghymru.
- Mae poblogaeth Cymru wedi cynyddu 44,000 (1.4%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan oedd yn 3,063,456.
- Roedd cyfradd twf y boblogaeth yng Nghymru rhwng 2011 a 2021 (1.4%) yn is na’r gyfradd rhwng 2001 a 2011, pan gynyddodd y boblogaeth 5.5%.
- Roedd cyfradd twf y boblogaeth yng Nghymru yn sylweddol is nag yn Lloegr, lle cynyddodd y boblogaeth 6.6% (bron 3.5 miliwn).
- Roedd mwy o farwolaethau na genedigaethau yng Nghymru rhwng 2011 a 2021. Mae’r twf yn y boblogaeth ers 2011 i’w briodoli i fudo net positif

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-awst-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(oddeutu 55,000 o breswylwyr arferol) i mewn i Gymru.

## Poblogaethau awdurdodau lleol

- Yr awdurdodau lleol â’r cyfraddau uchaf o dwf yn y boblogaeth ers 2011 oedd Casnewydd (9.5%), Caerdydd (4.7%) a Phen-y-bont ar Ogwr (4.5%).
- Roedd gan sawl awdurdod lleol boblogaethau is yn 2021 nag yn 2011. Roedd y cyfraddau mwyaf o leihad yn y boblogaeth ers 2011 yng Ngheredigion (5.8%), Blaenau Gwent (4.2%) a Gwynedd (3.7%).

## Poblogaeth yn ôl oedran

- Roedd mwy o bobl nag erioed o’r blaen yn y grwpiau oedran hŷn yng Nghymru. Cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed neu’n hŷn oedd 21.3% (i fyny o 18.4% yn 2011).
- Roedd canran fwy o’r boblogaeth yn 65 oed a throsodd yng Nghymru nag yn holl ranbarthau Lloegr, heblaw am Dde-orllewin Lloegr, lle roedd 22.3% o’r boblogaeth yn y grŵp oedran hwn.
- Mae maint y boblogaeth 90 oed neu hŷn yng Nghymru (29,700, 1.0%) wedi cynyddu ers 2011, pan oedd 25,200 (0.8%) yn 90 oed neu’n hŷn.

## Dwysedd y boblogaeth

- Ar gyfartaledd, roedd 150 o breswylwyr fesul cilometr sgwâr yng Nghymru yn 2021, sy’n sylweddol is na dwysedd y boblogaeth yn Lloegr (434 o breswylwyr fesul cilometr sgwâr).
- Yr awdurdod lleol â’r dwysedd poblogaeth mwyaf yng Nghymru oedd Caerdydd (2,572 o breswylwyr fesul cilometr sgwâr), a Phowys a oedd â’r dwysedd poblogaeth lleiaf (26 o breswylwyr fesul cilometr sgwâr).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-awst-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Nifer y cartrefi

- Roedd 1,347,100 o gartrefi ag o leiaf un preswylydd arferol yng Nghymru ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Mae hyn yn gynnydd o 44,400 (3.4%) ers 2011, pan oedd 1,302,676 o gartrefi.

Mae’r SYG wedi cyhoeddi erthygl ryngweithiol sy’n adrodd stori wrth sgrolio ynghylch **sut mae’r boblogaeth wedi newid yn eich ardal chi (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**. Mae’n dangos canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr ar lefel leol.

Mae yna hefyd **gêm map poblogaeth Cyfrifiad 2021 (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**. Gêm ar-lein yw hon ar sail data Cyfrifiad 2021, sy’n herio’r chwaraewyr i ymlwybro ar draws map o Gymru a Lloegr drwy ddyfalu ffeithiau’n gywir am awdurdodau lleol cyfagos.

# Cynlluniau’r SYG ar gyfer rhyddhau data Cyfrifiad 2021

Nod y SYG yw cyhoeddi holl brif ddata Cyfrifiad 2021 am boblogaeth Cymru a Lloegr o fewn dwy flynedd i’r cyfrifiad. Bydd y cyhoeddiadau hyn yn cael eu rhyddhau mewn tri cham:

Dechreuodd Cam 1 gyda’r amcangyfrifon o’r boblogaeth a chartrefi wedi’u talgrynnu, ac o hydref 2022 bydd hefyd yn cynnwys cyhoeddi crynodebau o bynciau, a phroffiliau ardal.

Y crynodebau o bynciau (mewn trefn yn ôl pryd y maent yn debygol o gael eu cyhoeddi) yw:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-awst-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- demograffeg a mudo
- grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd (gan gynnwys y Gymraeg)
- Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU
- tai
- y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd
- addysg
- iechyd, anabledd a gofal di-dâl

Bydd Cam 2 ar waith rhwng gaeaf 2022 a dechrau 2023. Bydd yn cynnwys cyhoeddi sylwebaethau ystadegol ochr yn ochr â data'r crynodebau o bynciau, data amlamryweb ar gyfer y sylfaen boblogaeth breswyl arferol, a rhyddhau data am y boblogaeth breswyl fyrdymor.

Bydd Cam 3 yn dechrau yng ngwanwyn 2023. Bydd y cam hwn yn cynnwys data ynghylch sylfeini poblogaeth amgen, poblogaethau bach, data mudo manwl, data 'llif' a samplau microddata.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael **yng nghynlluniau cyhoeddi'r SYG**.

# Gwybodaeth ddiweddaraf y SYG am ystadegau poblogaeth

Mae'r **SYG wedi cyhoeddi erthygl** a **blog sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y model dynamig o'r boblogaeth (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**. Mae'r dull newydd hwn yn defnyddio modelu ystadegol a ffynonellau data gweinyddol i ddarparu ystadegau poblogaeth yn amlach, ac sy'n fwy perthnasol ac amserol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-awst-2022-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Sut mae'r model dynamig o'r boblogaeth yn wahanol i'r amcangyfrifon canol blwyddyn presennol?

Mae'r dull presennol o amcangyfrif poblogaeth yn destun cyfeiliornad cynyddol po fwyaf y symudwn oddi wrth ddyddiad y cyfrifiad blaenorol. Fodd bynnag, mae'r model dynamig o'r boblogaeth yn mynd i'r afael â'r broblem hon drwy gyfuno data annibynnol am boblogaeth â newidiadau o ran genedigaethau, marwolaethau, mudo, a thueddiadau demograffig.

Mae'r SYG hefyd wedi cyhoeddi **canllaw i ystadegau a ffynonellau poblogaeth (Swyddfa Ystadegau Gwladol)**. Mae'r canllaw yn cynnwys cyfeiriadau at y gwahanol fathau o amcangyfrifon poblogaeth y bwriedir eu cyhoeddi yn 2022 a 2023, gan gynnwys yr amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer 2021, y bwriedir eu cyhoeddi ym mis Tachwedd; ac amcangyfrifon o'r boblogaeth rhwng canol 2012 a chanol 2020, gan ddefnyddio sylfaen newydd, y bwriedir eu cyhoeddi ddechrau 2023.

# Ystadegau'r Gymraeg

I gael gwybodaeth am ystadegau'r Gymraeg, gweler **diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru**.

# Cyswllt


## Martin Parry

Rhif ffôn: 0300 025 0373



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-awst-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

E-bost: **ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru**

## Cyfryngau

Rhif ffôn: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-awst-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.